Annwyl Bawb

E-FWLETIN 14 AWST 2008

Mae'n anodd credu ein bod ynghanol mis Awst gan fod y glaw yn taro'r ffenestr yn ddi-baid wrth i mi ysgrifennu'r e-fwletin hwn.

Mae hi wedi bod fel ffair yma'r wythnos hon gyda **Siop Lyfrau** ac **Arddangosfa Cenadaethau** Mudiad Efengylaidd Cymru a llu o bobl yn galw mewn bob dydd. Unwaith eto, mae'n ddiddorol gweld y ffordd y mae'r Neuadd yn cael ei drawsnewid wrth gynnal math gwahanol o ddigwyddiad yno, a daw'r wythnosau nesaf ag amrywiaeth bellach o ddigwyddiadau i Morlan.

- Bydd **Gweithdy Telyn** dan arweiniad Bill Taylor yn cael ei gynnal yn y Neuadd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, 23-24 Awst.
- Fore Mawrth, 26 Awst, cynhelir **Cymhorthfa Mark Williams**, ein Haelod Seneddol yn yr Ystafell Bwyllgor rhwng 10.00 a 12.30.
- Y prynhawn hwnnw, byddwn yn croesawu'n ôl un o'r criw rheolaidd ar ôl toriad dros yr haf, gan fod cangen leol **Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaladwy** yn cyfarfod yn yr Ystafell Bwyllgor am 5 o'r gloch. Deallaf fod y niferoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn wedi lleihau yn ddiweddar, felly os gwyddoch chi am unrhyw berson ifanc fyddai'n mwynhau cyfrannu at waith y mudiad hwn, anfonwch nhw draw! Cliciwch yma i ddarllen mwy am y mudiad. Maent yn cyfarfod ym Morlan bob dydd Mawrth o 5.00 i 7.00.
- Bydd gweithdy arall yn cael ei gynnal yn y Neuadd ar ddydd Sadwrn, 30 Awst, ond, mewn cyferbyniad llwyr i un y penwythnos blaenorol, bydd hwn yn **Weithdy Paentio Cerameg**.
- Nos Sadwrn, 27 Medi, bydd Cwmni Theatr Cydweithredol Troed y Rhiw yn perfformio ***Blodeuwedd*** yma am 7.30. Pris tocynnau fydd £6 (£4 gostyngol). Bydd paned ar y diwedd a chyfle i drafod a siarad gyda'r cast a'r criw.
- Yna, ar y nos Lun (29 Medi) bydd yr Athro Gareth Wyn Jones, Bangor yn annerch ar y thema *"Tswnamis Bach a Mawr"* fel rhan o'r gyfres **Dweud ei Ddweud**. Mae'r noson hon hefyd yn cychwyn am 7.30.
- Trwy gydol mis Medi bydd **arddangosfa o ffotograffau** yn y cyntedd fel rhan o ymgyrch ***Ydych chi wedi clicio?*** y mudiad Hafal. Mudiad ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl difrifol yw Hafal, ac mae'r ymgyrch yn gobeithio darparu gwybodaeth i bobl mewn ymgais i chwalu stigma. Mae elfen ffotograffiaeth i'r ymgyrch er mwyn chwalu rhwystrau ac annog pobl i gael hwyl. Rhoddwyd cyfle i gleientiaid a gofalwyr ledled Cymru – yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd – ddefnyddio offer digidol i ddal delwedd sy'n dweud rhywbeth am eu bywydau. Bwriedir casglu delweddau ffotograffig o bob cwr o'r wlad a chreu arddangosfeydd ym mhob sir yng Nghymru (gan gynnwys un ym Morlan, a cheir hefyd arddangosfeydd cenedlaethol mewn lleoliadau fel y Cynulliad Cenedlaethol.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr